**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Chwefror 2022

Annwyl Jayne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Ionawr ynglŷn â'r defnydd o ataliaethau ar blant a phobl ifanc.

Anfonwyd yr ohebiaeth ynglŷn â'r ymgyrch *'Hope instead of Handcuffs'* i fy swyddfa yn ogystal, a gofynnais i swyddogion wneud ymholiadau brys ynghylch y materion a godwyd.

Wedi ymholiadau cychwynnol, daeth awdurdodau lleol yn ymwybodol o rai achosion lle mae darparwyr cludiant diogel wedi defnyddio 'gefynnau meddal' ar bobl ifanc.

Ar 25 Ionawr, ysgrifennodd Albert Heaney, y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol at Gyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant i ofyn am sicrwydd bod camau gweithredu brys yn cael eu cymryd gan bob awdurdod lleol er mwyn:

- Canfod a oes plant yn eu gofal, a faint ohonynt, sydd wedi wynebu'r arfer hwn.
- Adolygu trefniadau comisiynu yn ffurfiol a sicrhau diwydrwydd dyladwy ar ddarparwyr cludiant diogel. Yn ogystal, dylid sicrhau bod trefniadau caffael yn cynnwys rhwymedigaeth gytundebol i weithredu yn unol â Fframwaith Llywodraeth Cymru ynghylch Lleihau Arferion Cyfyngol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi gofyn am sicrwydd ysgrifenedig ynghylch y ddau fater hyn erbyn 11 Chwefror. Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol wedi ysgrifennu at Gillian Baranski, Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru ar 25 Ionawr.

Mae hyn er mwyn sicrhau bod y broses arolygu yn cadw golwg a yw plant neu bobl ifanc sydd â phrofiadau o fod mewn gofal yn wynebu'r arferion hyn. Mae hyn hefyd er mwyn sicrhau bod diwydrwydd dyladwy wedi'i weithredu gan awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod darparwyr cludiant diogel yn gweithredu yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol, ac nad yw gefynnau llaw yn cael eu defnyddio o gwbl.

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig: Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol (19 Gorffennaf 2021) | LLYW.CYMRU.

Mae Gweinidogion Cymru yn glir eu barn bod arferion cyfyngol yn cael effaith negyddol ar lesiant y rhai hynny sy'n wynebu'r arferion hyn. Mae'r Fframwaith yn nodi'n glir na ddylid defnyddio arferion cyfyngol ond pan fetha popeth arall er mwyn atal niwed i'r unigolyn neu eraill.

Nod y canllawiau yw sicrhau bod y rhai hynny sy'n gweithio â phlant ac oedolion ar draws sectorau a gwasanaethau perthnasol yn rhannu fframwaith o egwyddorion a disgwyliadau cyffredin sydd wedi'u seilio ar ddull sy'n hyrwyddo hawliau plant a hawliau dynol yn weithredol.

Mae'r mater cyfredol hwn yr ydych wedi'i rannu â mi yn ein hatgoffa bod cefnogaeth barhaus i weithredu'r polisi hwn yn gadarn yn hanfodol.

Rwyf eisoes wedi cytuno ar gyngor y dylai swyddogion yn yr isadrannau perthnasol, yn ystod y cyfnod o gyhoeddi'r Fframwaith rhwng 19 Gorffennaf 2021 a 31 Mawrth 2022, feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid allanol yn y sectorau hynny y mae'r Fframwaith yn berthnasol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys y sectorau gofal plant, addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Cytunwyd bod angen cydweithio â sectorau, comisiynwyr a darparwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth, yn ogystal ag ystyried a chytuno ar unrhyw waith sydd ei angen er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith drwy bolisïau penodol a chefnogaeth i ymarfer. Bydd angen i hyn ddigwydd yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 a thu hwnt.

Ar 10 Rhagfyr, ysgrifennodd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol at Gyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant gan ofyn iddynt am eu cefnogaeth i'r gwaith sydd ei angen er mwyn gweithredu'r Fframwaith.

Mae fideo ar gyfer comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau a lleoliadau wedi'i gyhoeddi a'i hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae fideo tebyg wedi'i gomisiynu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.

Yn ogystal, mae'r cynigion sy'n ymwneud â Diogelu yng nghyllideb ddangosol gofal cymdeithasol ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys £35,000 i gefnogi'r gwaith o weithredu'r polisi hwn drwy godi ymwybyddiaeth a chynigion dysgu.

Nid yw'r sector cyfiawnder, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid wedi'i ddatganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi gofyn i'w swyddogion ymgynghori ar frys â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau dealltwriaeth well o'r sefyllfa. Yn ogystal, mae swyddogion wedi rhannu ein safbwyntiau ynghylch yr arfer cyfyngol hwn yn glir iawn â'r arweinwyr perthnasol yn Llywodraeth y DU.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi ymrwymo i gydweithio â mi i sicrhau bod ein disgwyliadau a rennir yn cael eu gweithredu mewn modd a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau dyddiol plant ac oedolion yng Nghymru.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services